

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor
a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 19 Medi 2019 am 19.30

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Jacob Milner

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Owen Pierce, Richard Fraser-Williams, Gwen Griffith a Gabrielle Wyn.

Cydymdeimlwn gyda'r Clerc yn dilyn ei phroffedigaeth yn ddiweddar.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Y Cyngor yn caniatáu i'r gwaith gychwyn cyn gynted a bo modd.
- 3.2** Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:
14 Llwybr Main – golau dal yn fflachio;
Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ' Ildiwch' yn fflachio. Y Clerc i gael diweddariad.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – y Clerc i holi Iwan ap Trefor am ddiweddariad.
- 3.4** Ciciwr Calon Tregarth –y Clerc wedi archebu 3 arwydd, ond nid oedd yn bosib eu gosod ar noson yr hyfforddiant oherwydd tywydd garw. Cyng. Dafydd Owen yn adrodd bydd yr arwyddion yn cael eu gosod yr wythnos hon.
- 3.5** Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Gynllunio ynglŷn a gosod ciciwr calon yn Neuadd Talgai, Llandygai. Nodwyd nad yw'n bosib i'w osod ar y Neuadd oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Tomos Hughes o'r elusen Achub Calon y Dyffryn ynglŷn a'r trafferth, ac wedi trafod y posibilrwydd o'i leoli yn annibynnol o fewn cwrttil y Neuadd. Cyng. Mair Leverett i gael caniatad gan yr eglwys i'w osod yno, a'r Clerc i ddanfon cynllun

- syml i'r Swyddog Cadwraeth yng Nghyngor Gwynedd i gael caniatad. Y Clerc i holi Tomos Hughes os oes bosib gael lluniau o rhywbeth tebyg.
- 3.6** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – y Cyng. Dafydd Owen i holi Cyngor Gwynedd unwaith eto.
- 3.7** Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Y twll dal yno.
- 3.8** Adroddwyd fod un o drigolion ardal Talybont yn glanhau ardal Talybont a Llandygai yn wirfoddol. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei waith ac yn awyddus rhoi rhodd i ddweud diolch. Penderfynwyd mai rhoi rhodd oedd yn cael ei ffafrio yn hytrach na'i gyflogi.
- 3.9** Nodwyd Cyng. Gwen Griffith fod dim arwyddion ar gyfer ciciwr calon Mynydd Llandygai. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn cael dyfynbrisiau ar gyfer rhai tebyg i'r rhai sydd yn Nhregarth.
- 3.10** Adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn yngylch yr adeiladau allanol rhwng Pandy a Tan Lôn, Tregarth, llawer mwy o geir yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad. Y Clerc wedi cysylltu hefo'r adran Gynllunio, ond heb gael ymateb hyd yn hyn. Yn dilyn diffyg ymateb gan yr Adran Gynllunio, penderfynwyd bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Aelod Cabinet gyda'n pryderon/sylwadau yn dilyn diffyg ymateb gan yr Adran Gynllunio.
- 3.11** Adroddwyd gan y Cyng. Dafydd Owen fod G Williams wedi dechrau ar y gwaith torri a glanhau llwybrau. Cyng. Dafydd Owen i holi os oes modd iddo ychwanegu glanhau ffosydd i'w raglen waith - llawer o ffosydd yn y plwyf angen sylw brys. Cyng. Gwen Griffith wedi danfon manylion ar gyfer unigolyn arall a fyddai hefo diddordeb yn y gwaith.
- 3.12** Nodwyd fod ffordd Dob angen ei dorri ar frys, Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu hefo'r Adran Briffyrdd. Adroddwyd bod y gwaith wedi ei wneud.
- 3.13** Llwybr rhif 26 – Ffordd Tan y Bwlch tuag at y Chwarel – Adroddwyd fod yno wartheg ar hyd y llwybr yn gwrthod symud i gerddwyr. Yn dilyn ymholiadau gyda gwahanol bobl, dim manylion pellach i'w gael. Hefyd rhai o'r aelodau wedi cerdded ar hyd y llwybr ac heb ddod ar draws gwartheg.
- 3.14** Swyddogion diogelwch ger mynediad safle Bryn Cegin, yno 24 awr o bob dydd. Yn dilyn ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru yw perchennog y safle, ac mae'r cwmni diogelwch wedi eu penodi i ddiogelu'r safle oherwydd materion diweddar sydd wedi codi gyda theithwyr a'r pryder y byddent yn cael mynediad i'r safle. Bydd y swyddogion diogelwch yn eu lle am y dyfodol rhagweladwy.
- 3.15** Adroddwyd bod cyflwr Eglwys St Ann's yn warthus, bod yno goed y tyfu drwy'r adeilad ac yn y tŵr. Y Clerc i gysylltu gyda'r adran Iechyd a Diogelwch yn Cyngor Gwynedd.
- 3.16** Gwasanaeth Bws 68-76-76a – Nodwyd fod amserlen y bws yn cael ei newid yn ddi-rybudd a heb hysbysu'r Cyngor nag y defnyddwyr ar y 22ain o Orffennaf. Cyng. Dafydd Owen a'r Clerc i gysylltu gyda Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ail-ystyried. Buddugoliaeth o rhyw fath. Bellach nid yw'r gwasanaeth yn galw yn Rhiwlas. Mae'r llwybr yn mynd o Mynydd i Pentir i Glasinfryn ac yna i Fangor. Hefyd mae 'r bws yn teithio o ysgol Tryfan a Friars i Fynydd Llandygai. Diolchwyd i'r Cyngor. Dafydd Roberts, Dafydd Owen a Gabrielle Wyn am eu holl waith ar hyn.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Medi 2019'

Cyflwynwyd: E-bost gan Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai – yn awyddus i enwi'r Cyngor fel partner yn eu cais CFP, ar gyfer uwchraddio'r cae i ofynion Cymdeithas Pêl-droed Cymru. Penderfynwyd bydd y Clerc yn holi os oes gan y Cyngor yr hawl i fod mewn cais o'r fath. Os ydynt, mae'r Cyngor yn hapus i fod yn rhan o'r cais fel partner allweddol.

Cyflwynwyd: E-bost gan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru-ymgyngoriad ar ddrafft o'r fframwaith. Yr aelodau i ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd: E-bost gan Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd-ymgyngoriad Llechi Cymru. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd: E-bost gan Gerallt Jones, Cyngor Gwynedd-manylion gwelliannau arfaethedig i Llwybr 35. Y Cyngor yn hapus i gefnogi'r gwelliannau.

Cyflwynwyd: E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri-nosweithiau gyda Chynghorau Tref a Chymuned, 30 Medi yng Nghapel Curig. Y Cyng. Huw Jones am fynychu ar ran y Cyngor.

5. Gwaith y mis

5.1 Adroddwyd bod yn amser i lanhau o gwmpas y ganolfan yng Nhregarth ac hefyd y llochesi bws a'r grisiau. Y Cyng. Dafydd Owen am drefnu gyda'r contractwr.

5.2 'Ash dyeback' – dim llawer o gyngor i'w gael. Y Cyng. Dafydd Owen am holi Cyngor Gwynedd.

5.3 Llwybr troed uwchben Bryn – coed/gwrych wedi gor-dyfu. Cyngor Gwynedd yn ymwybodol. Y Cyng. Dafydd Owen am anfon nodyn i'w atgoffa.

5.4 Cyfarfod Moelyci – roedd pawb oedd yn y cyfarfod yn gefnogol o'r perchennog tir, a swyddog CNC yn egluro'r sefyllfa yn dda. Ymateb positif wedi dod gan y gymuned.

5.5 Biniau halen – penderfynwyd bydd y Clerc yn anfon y rhestr at bawb, er mwyn iddynt wirio'r biniau.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – pla o fildroed, wedi eu trin llawer gwaith.

Ysgol Dyffryn Ogwen – y Cyng. Mair Leverett wedi mynychu i gyflwyno'r wobr ar ran y Cyngor. Noson dda iawn, gwych oedd gweld y plant yn cael eu gobrwyo. Diolchwyd i'r Cyng. Mair Leverett am fynychu.

Neuadd Goffa – y Pwyllgor yn diolch unwaith eto am yr arian tuag at y TCC.

Partneriaeth Ogwen – pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig o holl waith a phrosiectau'r Partneriaeth. Nodwyd fod y rhaglen waith yn gynhwysfawr sydd yn dda iawn, ond bod angen cadw golwg ar y rhaglen.

7. Yes Cymru – Ymgyrch annibyniaeth Cymru

Pleidleiswyd yn unfrydol bod y Cyngor yn gefnogol o'r ymgyrch, i gael Cymru yn wlad annibynnol yn Ewrop.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Awst. Derbyniwyd yr adroddiad.

8.2 Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd.

9. Taliadau

Ysgol Dyffryn Ogwen	£200.00
Tir a Choed Ltd	£120.00
Partneriaeth Ogwen –Ffioedd Gofrestrfa Tir	£19.80
Eglwys St Tegai	£900.00
Eglwys St Ann’s	£900.00
Eglwys St Mair Y Gelli	£900.00
G Williams-llwybrau	£2988.00
Partneriaeth Ogwen –Swyddog Cynnal	£1386.78
Partneriaeth Ogwen – ffioedd Gofrestrfa Tir	£12.00
Partneriaeth Ogwen – costau rhedeg Llyfrgell Gymunedol	£794.86

11. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda
Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C19/0105/16/LL

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai,
Llandygai
Dymchwel yr adeilad presennol sy'n
cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a
chodi adeilad newydd yn ei le
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau

12. Ceisiadau Cynllunio
C19/0830/16/CT

Eglwys y Santes Fair, Lon y Wern,
Tregarth
Tocio coed o fewn ardal gadwraeth
Penderfyniad: Cefnogi

C19/0786/16/LL

28 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Codi estyniad unllawr ar ochr a chefn
yr eiddo
Penderfyniad: Cefnogi, ond meddwl
bod na le i ddefnyddio deunyddiau
mwy naturiol yn lle K-rend/Weber, ac
hefyd defnyddio llechi lleol gan gofio
lleoliad yr eiddo.

C19/0714/16/LL

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen, Tregarth
Newid defnydd adeilad allanol ar gyfer
cyfleuster staff a llesiant
Penderfyniad: Cefnogi

C19/0749/16/LL

Pentwmpath, Llandygai, Bangor
Estyniadau
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C19/0599/16/LL

Y Garn, Lon y Grug, Mynydd Llandygai
Codi ystafell gardd ar gyfer defnydd
gan y teulu ac ymwelwyr ynghyd a
gosod ar gyfer defnydd gwyliau
achlysurol
Penderfyniad: y Cyngor yn gefnogol,
os yw'r cymdogion yn hapus

13. Unrhyw fater brys arall

Amserlen y Cyngor – trafodwyd yn sydyn amseriad pynciau fel Rhoddion a'r Archeb
Blyneddol.